

Cyngor Cymuned Bodedern



Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd
yng Nghanolfan Bro'r Ysgol, Bodedern,

Nos Lun, 25 Medi 2017

am 7 yr hwyr.

1. Croeso ac ymddiheuriadau.

Presennol:

Mr Adrian Jones-Cadeirydd **AJ**, Mrs Linda Jones **LJ**, Ms Cari Jones **CJ**, Dr Edward Jones **EJ**, Mr Victor Owen **VO**, Miss Jane Ann Roberts-Is-Gadeirydd **JAR**, Mrs EAB Thomas **EABT**, Cynghorwr John Griffith **JG**.

Ymddiheuriadau: Mr Aled Ifan, Mr O G Roberts.

2. Datgan Diddordeb: JG ynglyn ac eitem 6.

3. Anerchiad gan Ms Joanne Ferry.

Gwnaethwyd anerchiad cyhoeddus gan Ms Joanne Ferry, lle mynegodd ei phryderon mewn perthynas â sawl agwedd o waith y Cyngor Cymuned. Oherwydd hyd a natur y sylwadau hyn, gofynnodd y clerc i'r rhain gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig i sicrhau cywirdeb o fewn y cofnodion. Atalir y sylwadau a gyflwynwyd gan Ms Ferry, a byddant yn rhedeg fel rhan o'r cofnodion. Hysbysodd y clerc i Ms Ferry na fyddai unrhyw ymateb yn cael ei wneud y noson hon, ond oherwydd cymhlethdod ei sylwadau mae ymateb ysgrifenedig yn fwy priodol. (Gan nad oes ymateb wedi ei ddarparu ar y noson, bydd yr ymateb yn rhan o gofnodion swyddogol mis Hydref) Diolchodd y Cadeirydd i Ms Ferry am ei sylwadau, ac er ein bod yn rhanu'r un nodau, eglurodd oherwydd lle y Cyngor Cymuned yn nhermau lefelau o lywodraethu, mae dim ond nodau bach sydd o fewn gafael cyngor fel Bodedern.

4. Cofnodion Gorffennaf ac unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

EABT yn cynnig eu bod yn gywir, **EJ** yn eilio.

4.1 Nododd y clerc ei bod yn disgwl cadarnhad gan CSYM ynglyn a statws Lon Dywyll ar ol y sylwadau a wnaethwyd yn cyfarfod cyhoeddus nad oed dy lon wedi ei fabwysiadu.

4.2 Nododd y clerc ei bod dal i ddisgwyl derbyn prisiau am drin giat y fynwent, er gwneud sawl ymholiad. Derbynwyd sicrhad gan ddau gyflwynwr bydd pris i'w gael erbyn diwedd y mis.

Cyngor Cymuned Bodedern



Cofnodion Awst 2017 a unrhyw faterion yn codio o'r cofnodion.

EABT yn gwneud cais am ychwanegiad i'r cofnodion. Roedd angen cofnodi yn glir byddai'r ddeiseb ac sylwadau erchyll yn cael ei chadw ar ffeil. Cytunwyd i'r ychwanegiad yma. Y clerc I sicrhau fod y ddesibe yn cael ei chadw yn rhan o'r cofnodion.

Nododd **AJ** ei fod yn gwerthfawrogi yn fawr y gefnogaeth a dderbyniwyd.

5. Maes Chwarae/Ffrindiau Bodedern.

5.1 Nododd **CJ** byddai'r pwyllgor yn cyfarfod eto'n fuan, gyda'r bwriad o drafod ehangu Ffrindiau Bodedern er mwyn ceisio tynnu mwy o aelodau i rannu'r faich. Nodwyd fod trefniadau ar gyfer "Adventure Trail" newydd. Holodd **EABT** faint o bobl oedd wedi mynychu eu cyfarfod diwaethaf, ac nododd **CJ** mae 4 oedd wedi mynychu, ac mae'r un 4 person yma oedd yn gweithredu dros y parc yn rheolaidd. Nododd **AJ** ei ddiolchgarwch i'r rhain am eu hymrwymiad.

5.2 Nododd **CJ** bryder ynglyn a'r baw ci yn y maes chwarae, ac efallai fod diffyg arwyddion yn gwneud y broblem yn waeth. Nododd y clerc fod hyn wedi ei dynnu i sylw **CSYM** yn flaenorol, ac eu bod wedi nodi fod arwydd ar y pryd. Y clerc i wneud ymholiadau pellach a **CSYM**. Nododd **JG** fod cwmni o'r enw "Kingdom" yn gyfrifol o wneud ymweliadau yn y pentref ond ni chyhoeddwyd unrhyw ddirwyon yn ystod eu hymweliad diwaethaf.

5.3 Nododd **CJ** fod aelod o'r gymuned wedi bod yn symud bin y Maes Chwarae i'r lon i sicrhau ei fod yn cael ei gasglu. Y clerc i wneud ymholiadau gyda **MON CF** i weld os ydynt yn darparu hyn fel rhan o'u gwasanaeth.

6. Materion Cynllunio.

6.1 Gate Farm 13C195B

Cais llawn ar gyfer mynedfa newydd i gerbydau ynghyd a chreu trac ar dir gogledd i Gate Farm.

Nododd **JAR** fod lefel y tagfeydd ar y lon wedi creu llawer o bryder yng nghyfarfod cyhoeddus Gate Farm, ec felly efallai byddai hyn yn lleihau trafndiaeth? Ond nododd hefyd mai dim trafndiaeth Gate Farm yn unig sy'n creu tagfeydd.

Nodwyd fod pryderon ynglyn a'r cais yma, a'r dealltwriaeth fod y cais yma yn gysylltiedig a'r cais mawr yn Gate Farm, a'r pryderon ynglyn ac addaswydd lonydd cefn gwlad i ymdopi a'r math o loriau byddai angen ar gyfer y datblygiad. Nodwyd byddai llawer i asiantaethau yn ymwneud a'r cais yn cynnwys Adran Briffyrdd, Cyfoeth Naturiol Cymru ayyb.

Pwysleiswyd os byddai dymuniad i wrthwynebu i'r cais yma, byddai rhaid i'r gwrthwynebiad fod ar sail rhesymau dilys, ac nid oherwydd pryderon ynglyn a cais Gate Farm.

Cytunwyd i beidio a gwrthwynebu.

Cyngor Cymuned Bodedern



7 Ceisiadau am gofnodion yn y Saesneg.

Roedd y clerc wedi derbyn dau gais i gyfiaethu'r cofnodion, ac wedi pasio'r ceisidadau yma i'r aelodau drwy ebost er mwyn iddynt gael rhoi eu barn. Ar ol derbyn cyngor cyfreithiol, roedd yr aelodau wedi penderfynnu yn unfrydol cadw'r cofnodion yn gymraeg yn unig, fel y mae ganddynt hawl i wneud. Gofynnodd y clerc iddynt gadarnhau hyn ar gyfer pwrpas ei gofnodio yn swyddogol yng nghofnodion y cyngor. Cytunwyd unwaith eto barhau i weithredu yn uniaith gymraeg yn unig.

8. Adroddiad Pwyllgor Safonau ynglyn a Chofrestr Diddordebau.

Roedd y clerc wedi derbyn yr adroddiad uchod, gyda cais i'w yrru ymlaen i bob aelod. Cadarnhaodd y clerc ei fod wedi ei yrru drwy ebost i bawb, gyda chopi papur wedi ei ddarparu i'r rhai heb ebost. Nododd y clerc fod dau bwynt angen sylw ymhellach ac gweithredu gan y cyngor, ac byddai'n darparu'r gweithredoedd hyn ar eu cyfer. Cadarnhawyd fod pawb wedi derbyn copi o'r adroddiad.

9. Cynrychiolaeth ar gyrff Llywodraethwyr Ysgolion.

Cadarnhawyd byddai AJ yn parhau fel cynrychiolwr y Cyngor Cymuned ar y Corf Llywodraethol yn yr Ysgol Gynradd. Y clerc i hysbysu'r Ysgol o hyn.

10. Gohebiaeth.

Derbyniwyd ebost gan LLio Ifan, aelod o bwyllgor Apel Eisteddfod Bodedern 2017 yn diolch i aelodau'r cyngor am eu gwaith dros gyfnod yr Eisteddfod, ac am eu galluogi i geisio am grant i greu diwrnod hwyl, a chael capiau a fflagiau i addurno'r pentref, ac mynegodd gobaith byddai parhad yr wyl yn parhau yn y pentref.

11. Taliadau i'w gwneud.

Neuadd Goffa Bodedern	10/7/17 (£30) & 28/7/17 (£20)	£50.00	Siec 200021 *
Cara Mlynarczyk	Peintio gwynebau, diwrnod hwyl (allan o grant Horizon)	£160.00	Siec 200023
William Evans & Sons Ltd	Trin Lloches Bws A5	£630.00	Siec 200024
Ynys Trading Lts (Mon CF)	2 x blwch blodau wrth Ysgol Uwchradd, 6 x Pole Planters wrth fynedfa yr Eisteddfod	£530.00	Siec 200025
Cymen Cyf.	Cyfiaethu Cyfarfod Gate Farm	£290.16	Siec 200026
Sional Ltd	Capiau, Bunting ayyb (allan o grant Horizon)	£1245.00	Siec 200027
Mon GCS	MGC2425	£200.00	Siec 200028

*(Roedd yn ymddangos o restr ffioedd y neuadd fod ffi 5 awr wedi ei godi ar gyfer cyfarfod 10/7/17. Ffioedd yw £20 am dair awr cyntaf, £5 am bob awr ychwanegol. Er nad oedd y neuadd wedi cael ei defnyddio am 5 awr cytunwyd i'w dalu fel mynegiant o ewyllys da a diolchgarwch.)

Clerc/ Clerk:
Ms. Rhian Wyn Owen,
Aber, 5 Glanllyn, Llanfachraeth,
Ynys Môn, LL65 4UW.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Nos /evening: (01407) 749 162
Symudol /mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com

Cyngor Cymuned Bodedern



12. Unrhyw Fater Arall.

21.1 Nododd LJ nad oedd cyfarfod Towyn Trewan wedi bod i drafod y dwr oedd yn sefyll ar y lon. Nododd byddai cyfarfodydd yn aml, ond ar ol derbyn y drwydded nad oedd cymaint wedyn. Diolchodd LJ I'r clerwr am ei gwaith dros gyfnod yr Eisteddfod.

12.2 Nododd aelod o'r cyhoedd a oedd yn bresennol, Mr Arnold Griffith ei fod yn dymuno nodi ei fod wedi trin pwmp hanesyddol y pentref er mwyn ei dacluso cyn yr Eisteddfod, a gwnaeth gais am gyfraniad ariannol gan y cyngor tuag at y gost. Nododd Mr Griffith hefyd fod y clo ar y pwmp wedi dirywio ac byddai angen clo newydd. Nododd y clerwr ei bod yn ymwybodol fod y gwaith yma wedi ei wneud ar ol iddo ddangos llyniau o'r pwmp wedi i'r gwaith gael ei gwblhau, ond eglurodd y clerwr nid oedd y cyngor wedi gwneud cais i'r gwaith yma gael ei wneud ac nid oedd neb wedi mynegi unrhyw bryder i'r cyngor am gyflwr y pwmp, a cheisiodd egluro felly nai all y cyngor awdurdodi unrhyw daliadau yn yr achos yma. Os byddai'r cyngor wedi eu hysbysebu fod pryderon ynglyn a chyflwr y pwmp yna gallent fod wedi gweithredu, ond roedd y gwaith wedi ei gwblhau cyn i'r cyngor gael gwybod. Hefyd, nododd y clerwr ei bod yn credu fod cwestiwn ynglyn a pherchnogaeth y gwrychyn a oedd yn tyfu ogwmpas y pwmp, ac byddai'r cyngor wedi gwneud ymholiadau cyn caniatáu gwneud unrhyw waith a derbyn y cyfrifoldeb ariannol. Nododd AJ byddai'r cyngor yn falch o dderbyn unrhyw adroddiadau am gyflwr y pwmp yn y dyfodol, cyn i neb wneud unrhyw with arno. Mynegodd Mr Griffith ei anfodlonrwydd ynglyn a ymateb a datganiad y clerwr, a chredai yn gryf nad oedd y cyngor yn cyflawni eu cyfrifoldebau. Yn dilyn ymyrraeth pellach gan aelodau o'r cyhoedd, cynghorwyd nhw nad oedd ganddynt hawl i siarad, ac er mwyn sicrhau trefn ac urddas y cyfarfod dylent hysbysebu eu dymuniad i siarad i'r clerwr oleiaf 48 cyn bob cyfarfod, ac yn dilyn hyn byddai'r cyngor yn falch iawn o glywed eu sylwadau. Nododd EABT fod pwmp arall wedi ei leoli yn y pentref yn waelod Bron y Graig ar un adeg, ond nododd Mr A. Griffith ei fod yn ymwybodol fod y pwmp wedi ei symud pan oedd y lon yn cael ei thrin, ond nid oedd neb yn ymwybodol o beth ddigwyddodd i'r pwmp.

12.3 Yn dilyn rhai o sylwadau Ms Ferry nododd JAR fod galw mawr am hysbysfwrdd yn y pentref. Nododd y clerwr ei bod wedi bod yn ceisio cael lle addas i'w osod, ond nad oedd unrhyw berchnogion tir a oedd wedi ysgrifennu atynt wedi bod yn fodlon. Roedd wedi gwneud ymholiadau gyda'r Adran Briffyrdd ac Adran Dai i geisio cael gwybod pwy oedd perchen y llecyn tir wrth y blwch ffon. Ar ol bod at y "Land Registry" roedd wedi cael cadarnhad mai Adran Dai CSYM oedd y berchnogion, ac roedd wedyn wedi gwneud sawl cais i'r tir gael ei glirio a'i dacluso, yn gyntaf cyn yr Eisteddfod ac hefyd er mwyn galluogi gosod hysbysfwrdd yno. Nododd y clerwr roedd y tir wedi cael ei glirio (ar ol yr Eisteddfod) a gyda chaniatad yr aelodau gallai symud ymlaen i osod hysbysfwrdd yno yn absonoldeb unrhyw leoliad posib arall.

12.4 Nododd JAR ac EABT fod pryderon yn parhau ynglyn a tir Stryd Baptist, ac os oedd y tir am gael ei amgylchynu fod angen sicrhau ei fod yn cael ei gynnal. Y clerwr i gysylltu a CSYM am sicrhad.

Cyngor Cymuned Bodedern



12.5 Nododd **VO** fod Cyngor Cymuned Llanfairynneubwll wedi derbyn llythur ynglyn a'r cais am wneud llyn newydd ger Penmynydd, fel oedd wedi ei dderbyn ym Modedern. Nodwyd mae dim cais ffurfiol gyda CSYM oedd hwn eto, dim ond cais am adborth.

12.6 Nododd **VO** ei fod yn bwriadau plannu blodauo flaen arwyddion newydd y pentref. Y clerch i gysylltu a CSYM i weld os oes angen caniatad Adran Briffyrdd.

12.7 Nododd **CJ** nad oedd sic gan Ffrindiau Bodedern i'r cyngor wedi mynd trwy gyfrif banc Ffrindiau Bodedern. Cadarnhaodd y clerch ei bod wedi ei derbyn a'i bancio, ond y clerch i wneud ymholiad gyda'r banc.

12.8 Nododd **CJ** ei fod wedi derbyn cais gan Kelly Hughes, Esgobaeth Bangor i weld os byddai'r cyngor yn gallu cyfrannu at gostau torri Mynwent yr Eglwys. Nododd byddai angen gwnued cais ffurfiol gyda mantolen, ond credwyd mae Bro Cwyfan neu Esgobaeth Bangor fyddai'n gyfrifol am y costau.

12.9 Nodd **AJ** ei bod yn braf gweld fod y wal allan o'r pentref am yr A55 yn cael ei thrin o'r diwedd.

Cau 8.30

Clerch/ Clerk:
Ms. Rhian Wyn Owen,
Aber, 5 Glanllyn, Llanfachraeth,
Ynys Môn, LL65 4UW.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Nos /evening: (01407) 749 162
Symudol /mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com